Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

# Polisi Gwerth Cymdeithasol 2021-2023 (Fersiwn Terfynol 1.0)




TRAFODAETH CAERFFILI
THE CAERPHILLY CONVERSATION

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

# CYNNWYS


| | Tudalen |
|---|---|
| 1. Rhagair | 1 |
| 2. Cyflwyniad | 2 |
| 3. Ysgogwyr Polisi yng Nghymru | 3 |
| 4. Ysgogwyr Polisi Caerffili | 4 |
| 5. Beth yw Themâu, Canlyniadau a Mesurau (TOMs)? | 6 |
| 6. Beth yw Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi? | 7 |
| 7. Beth yw Economi Gylchol? | 7 |
| 8. Beth yw Adeiladu Cyfoeth Cymunedol? | 8 |
| 9. Beth yw Economi Sylfaenol? | 9 |
| 10. Cefnogi Busnesau Lleol a Busnesau Bach a Chanolig | 9 |
| 11. Amcanion a Chyflawni | 9 |
| 12. Cyflawni Gwerth Cymdeithasol drwy TOMs | 10 |
| 13. Adrodd, Monitro a Rheoli Contractau | 10 |
| 14. Llywodraethu a Rheolaeth | 10 |
| 15. Cysylltwch â Ni | 11 |

# 1 RHAGAIR

Mae **Cynllun Corfforaethol ac Amcanion Llesiant** Cyngor Bwrdeistref Sirol (CBS) Caerffili yn dangos yn glir ymrwymiad y Cyngor i roi blaenoriaeth i lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol a'n partneriaid. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall y modd y rheolwn ein gwariant blynyddol o £230 miliwn gyda chyflenwyr, darparwyr gwasanaethau a chontractwyr gyfrannu'n sylweddol at y flaenoriaeth hon.


Mae'r Cyngor eisoes wedi dangos ymrwymiad clir i'r agenda hon, ac mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Penodi'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol fel Hyrwyddwr Atal Caethwasiaeth a Chyflogaeth Foesegol y Cyngor ym mis Tachwedd 2017;
- Newid ein hymagwedd yn radical at blastigau problemus ledled y Fwrdeistref Sirol ac wedi penodi Dirprwy Arweinydd a Chyfarwyddwr Corfforaethol y Cyngor yn 'Hyrwyddwyr Plastig'.
- Ennill Achrediad Di-Blastig Surfers against Sewage yn 2019;
- Wedi ein coroni yn enillwyr yng Ngwobrau Go Cymru 2020 yn y categori gwerth cymdeithasol am y gwaith rhagorol a gafodd ei wneud gyda'n cadwyn gyflenwi leol.

Rydym wedi mynd ati'n gynyddol i geisio ymgorffori mentrau gwerth cymdeithasol yn ein contractau, er ein bod yn cydnabod ei fod yn faes y gallwn ei wella drwy fod yn fwy cydgysylltiedig o ran cydweddu cyfleoedd â'r rheiny mwyaf eu hangen.

Rydym yn ymdrechu i gyflawni'r gwerth mwyaf ar gyfer punt Caerffili a pharhawn i ddangos ein bod yn gofalu am Gaerffili.

Bydd y polisi hwn yn ceisio adeiladu ar y cynnydd sydd wedi'i wneud, a'i gyfnerthu, trwy dynnu nifer o wahanol ofynion deddfwriaethol, mentrau polisi ac uchelgeisiau ynghyd mewn un fframwaith cydlynus wedi'i seilio ar **bum prif amcan gyda 'Gofalu am Gaerffili' yn ganolog iddo.**




**Y Cynghorydd Phillipa**
**Arweinydd y Cyngor**





**MarsdenChristina Harrhy**
**Prif Weithredwr**

# 2 CYFLWYNIAD

Mae CBS Caerffili yn gyfrifol am gyflenwi ystod eang o wasanaethau cyhoeddus statudol a dewisol. Mae'r Cyngor yn cyflenwi ei wasanaethau'n uniongyrchol drwy ei weithlu ei hun, a thrwy sefydliadau'r sector preifat a'r trydydd sector, gan wario dros £230miliwn y flwyddyn ar ystod amrywiol o nwyddau, gwasanaethau a gwaith gan dros 4600 o gyflenwyr, darparwyr gwasanaethau a chontractwyr.

Mae cyfrifoldeb gan y Cyngor i reoli arian cyhoeddus gydag uniondeb er mwyn sicrhau cyflawni gwerth am arian, a'i reoli mewn ffordd sy'n golygu y gellir cefnogi amcanion ehangach y Cyngor. Rhoddodd Rhaglen y Cyngor ar gyfer Caffael (2018-2023) mwy o ffocws ar gyflawni hyn, gan gydnabod gwerth defnyddio caffael i gefnogi ei amcanion Diwylliannol, Cymdeithasol, Economaidd ac Amgylcheddol ehangach, mewn ffyrdd sy'n cynnig manteision hirdymor go iawn i'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu a phobl Cymru, wrth gydbwyso materion gwerth am arian ar yr un pryd.

***Gwerth am Arian*** – yw'r "cyfuniad optimwm o gostau oes gyfan nid yn unig o ran sicrhau arbedion effeithlonrwydd a chanlyniadau ansawdd da i'r sefydliad, ond hefyd budd i gymdeithas, yr economi, a'r amgylchedd, nawr ac yn y dyfodol" (fel y'i diffiniwyd yn Natganiadau Polisi Caffael Cymru 2012 a 2015).

***Gwerth Cymdeithasol*** - dyma "derm eang i ddisgrifio effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd camau a gymerir gan gymunedau, sefydliadau, llywodraethau ac unigolion" (fel y diffinnir yn *Social Value for Commercial Success eLearning*, Government Commercial College, 2020).

Mae'r polisi hwn yn rhoi ffocws penodol ar y mentrau canlynol:

***Themâu, Canlyniadau a Mesurau (TOMs)*** – mecanwaith effeithiol ac effeithlon wrth fesur, cofnodi a monitro gwerth cymdeithasol a buddion cymunedol yn ein gweithdrefnau caffael.

***Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi*** – mae'n canolbwyntio ar sicrhau safon uchel o ran arferion cyflogaeth foesegol gan ein cyflenwyr, darparwyr gwasanaethau a chontractwyr.

***Economi Gylchol*** – ymagwedd systemig tuag at ddatblygu economaidd gyda'r bwriad o sicrhau budd i fusnesau, cymdeithas a'r amgylchedd.

***Adeiladu Cyfoeth Cymunedol*** – gwelir hyn fel ysgogwr pwysig ar gyfer gwerth cymdeithasol; nod y cysyniad yw ad-drefnu a rheoli'r economi leol fel nad yw cyfoeth yn cael ei dynnu'n awtomatig ond yn hytrach yn cael ei gadw'n eang ac yn gynhyrchiol, gyda gwreiddiau lleol, fel bod incwm yn cael ei ailgylchredeg gymaint ag y bo modd, cymunedau yn cael eu rhoi yn gyntaf ac y darperir cyfle cyfartal, urddas a lles i bobl.


***Yr Economi Sylfaenol*** – gweithgareddau sy'n darparu'r nwyddau a'r gwasanaethau hanfodol ar gyfer bywyd bob dydd, ni waeth beth fo statws cymdeithasol defnyddwyr. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, gwasanaethau iechyd, addysg a lles; seilwaith; cyfleustodau; prosesu bwyd; a manwerthu a dosbarthu.

***Cefnogi Busnesau Lleol a Busnesau Bach a Chanolig*** - ymgysylltu â'r gadwyn gyflenwi leol er mwyn cael y gallu i gynnig am gyfleoedd contract y Cyngor a, lle bo modd, hyrwyddo arloesi ar gyfer ail-ddylunio cyflenwi gwasanaethau yn unol â'r mentrau adeiladu cyfoeth cymunedol a'r economi sylfaenol.

Nod y polisi hwn yw darparu fframwaith cyffredinol ar gyfer cyflawni'r mentrau hyn, y gofynion cysylltiedig ehangach a lywir gan ddeddfwriaeth a pholisi ac, yn bwysig, cyflawni ymrwymiadau'r Cyngor ei hun a geir yn y Cynllun Corfforaethol. Bydd hyn yn sicrhau bod y Cyngor yn hyrwyddo amcanion Diwylliannol, Cymdeithasol, Economaidd ac Amgylcheddol a gyflawnwn drwy ein gweithgarwch caffael.

# 3 YSGOGWYR POLISI YNG NGHYMRU

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Nod y Ddeddf yw helpu creu Cymru rydym ni gyd am fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol. Er mwyn gwneud yn siŵr ein bod i gyd yn gweithio tuag at yr un diben, mae'r Ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant.







Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yn cyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i hyrwyddo (yn eu hardal) datblygu sefydliadau nid-er-elw i ddarparu gofal a chymorth i ofalwyr, a gwasanaethau ataliol. Mae'r modelau hyn yn cynnwys gwasanaethau ar draws yr ystod sy'n ffurfio'r trydydd sector - mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol, trefniadau cydweithio, a gwasanaethau dan arweiniad y defnyddiwr.

**Mae Polisi Cymalau Gwerth Cymdeithasol/ Buddion Cymunedol Llywodraeth Cymru** yn mynnu, lle bo modd, bod gofynion gwerth cymdeithasol sy'n gymesur â gwerth ac yn gysylltiedig â thestun y contract yn cael eu hystyried i'w cynnwys yng nghyfleoedd tendro'r sector cyhoeddus. Ym mhob achos lle mae awdurdod contractio'n penderfynu bod gofynion gwerth cymdeithasol i'w cynnwys:

- Cysylltiadau rhwng gofynion gwerth cymdeithasol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a
- Dylai pwysoliad lleiaf o 10% o gyfanswm y meini prawf dyfarnu gael ei gymhwyso i werth cymdeithasol yn y tendr er mwyn sicrhau bod ganddo sgôr ddigon trwm i fod yn ffactor gwahaniaethu wrth werthuso cynigion.




# 4 YSGOGWYR POLISI CAERFFILI

## Cynllun Corfforaethol 2018-2023

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys ein chwe Amcan Llesiant, ac mae dyletswydd statudol gan y Cyngor i bennu Amcanion Llesiant gan ddefnyddio'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Dyma'r tro cyntaf i'r Cyngor bennu amcanion dros gyfnod cynllunio pum mlynedd, ac mae ein Hamcanion Llesiant fel a ganlyn:

- Gwella addysg i bawb;
- Galluogi cyflogaeth;
- Mynd i'r afael ag argaeledd, cyflwr a chynaliadwyedd cartrefi ledled y fwrdeistref sirol a darparu cyngor, cymorth neu gefnogaeth i helpu i wella llesiant pobl;
- Hybu system drafnidiaeth fodern, integredig a chynaliadwy sy'n cynyddu cyfleoedd, yn hybu ffyniant ac yn lleihau i'r eithaf effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd;
- Creu Bwrdeistref Sirol sy'n cefnogi Ffordd Iach o Fyw yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- Cynorthwyo dinasyddion i aros yn annibynnol a gwella eu llesiant.




## Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili yn dod â chyrff cyhoeddus ynghyd i weithio i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Bwrdeistref Sirol Caerffili. Maen nhw'n gyfrifol, o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, am oruchwylio datblygu Cynllun Llesiant Lleol, sef gweledigaeth hirdymor ar gyfer yr ardal drwy fod yn gyfrifol am asesu cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y Fwrdeistref Sirol drwy bennu amcanion gyda'r bwriad o wella'r fwrdeistref sirol ar gyfer ei thrigolion.

Mae gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili bedwar o aelod-fudiadau statudol sy'n gyfrifol am gyflawni eu dyletswyddau llesiant o dan y Ddeddf.

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Y Gaerffili A GAREM
THE Caerphilly WE WANT

# Strategaeth a Chynllun Gweithredu Datgarboneiddio: Lleihau, Cynhyrchu, Gwrthbwyso, Prynu

Ar 4 Mehefin 2019, cyhoeddwyd argyfwng hinsawdd yn ffurfiol gan y Cyngor fel Hysbysiad Cynnig, gyda chefnogaeth lawn yr holl bleidiau gwleidyddol. Mae'r strategaeth a'r cynllun gweithredu dilynol yn canolbwyntio ar leihau ôl troed carbon y Cyngor ei hun, gan bennu'r amcan cyffredinol o fod yn awdurdod carbon niwtral net erbyn 2030. Bydd y Cyngor yn LLEIHAU'n ddramatig ei lefelau defnyddio ynni, yn CYNHYRCHU ei drydan glân gwyrdd ei hun, yn GWRTHBWYSO allyriadau carbon ac yn ceisio cyfyngu ei effaith carbon drwy'r nwyddau a'r gwasanaethau y mae awdurdod y Cyngor yn eu PRYNU. Mae nifer fanteision yn gysylltiedig â'r Cyngor yn gweithio tuag at agenda carbon niwtral net, ac mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Bydd yn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd trwy leihau faint o garbon sy'n mynd i'r atmosffer;
- Mae iddo fuddion cymdeithasol – trwy wneud cartrefi yn fwy effeithlon o ran ynni, bydd yn gostwng biliau ac yn helpu mynd i'r afael â thlodi ynni;
- Bydd yn dod â buddion ariannol uniongyrchol i'r Cyngor trwy ostwng ein biliau ynni a'n treth carbon;
- Bydd yn ein helpu i gydymffurfio â deddfwriaeth sy'n debygol o fynd yn llymach dros amser;
- Bydd yn helpu diogelu'r Cyngor at y dyfodol a'n gwarchod ni rhag cynnydd mawr mewn prisiau tanwydd mewn marchnad gyfnewidiol; ac yn
- Cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru




## Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region

Nod cyffredinol y Fargen Ddinesig yw gwella'r amodau economaidd yn yr ardal, fodd bynnag, gellir crynhoi nodau penodol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd fel a ganlyn, "Gwella cynhyrchiant; mynd i'r afael â bod heb waith; adeiladu ar sylfeini arloesedd; buddsoddi mewn seilwaith ffisegol a digidol; rhoi cymorth i fusnes a sicrhau bod unrhyw fuddiannau economaidd yn cael eu gwireddu ledled y rhanbarth".

# Rhaglen ar gyfer Caffael 2018-2023

Cymeradwywyd "Rhaglen ar gyfer Caffael" 5 mlynedd y Cyngor a'i mabwysiadu'n ffurfiol ym mis Mai 2018. Mae'r rhaglen yn nodi sut bydd amcanion caffael y Cyngor yn cael eu cyflawni drwy gynlluniau gweithredu sydd wedi cael eu blaenoriaethu, caffael effeithiol a rheoli gweithredol. Mae'n cydnabod gwerth defnyddio caffael i gefnogi ei amcanion *'Diwylliannol, Cymdeithasol, Economaidd ac Amgylcheddol'* ehangach, mewn ffyrdd sy'n cynnig buddion hirdymor gwirioneddol i'r gymuned mae'n ei gwasanaethu a phobl Cymru, gan gydbwyso materion gwerth am arian ar yr un pryd. Mae'r dull gweithredu yn un hyblyg ac addasadwy, gyda gwelliant parhaus er mwyn sicrhau newid gwirioneddol ac i wella bywydau'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yn ein bwrdeistref.



# CBS Caerffili, Themâu, Canlyniadau a Measurau (TOMs) a'r Porth Gwerth Cymdeithasol

Ym mis Mawrth 2020, ymgysylltodd y Cyngor yn ffurfiol â'r Porth Gwerth Cymdeithasol fel ein partner caffael a mesur gwerth cymdeithasol. Ar y cyd â'r Porth Gwerth Cymdeithasol, mae'r Cyngor wedi datblygu fframwaith mesur gwerth cymdeithasol pwrpasol gyda'r nod a'r amcan o fesur a monitro gwerth cymdeithasol yn unol â'r fframwaith TOMs cyffredinol, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn erbyn Cynlluniau, Polisïau ac Amcanion Lleol a Chenedlaethol.

Mae fframwaith TOMs penodol y Cyngor wedi'i ddatblygu, fodd bynnag, ac yn bwysig mae'r fframwaith TOMs yn hyblyg ac addasadwy gan alluogi ystyried themâu, canlyniadau a mesurau newydd, ac os ystyrir eu bod yn dderbyniol, eu hychwanegu at y fframwaith. Y bwriad yw y bydd gwerth cymdeithasol yn cael ei gynnwys a'i fesur ar y cyd â chyfleoedd contract presennol y Cyngor a rhai yn y dyfodol.

# 5 BETH YW THEMÂU, CANLYNIADAU A MESURAU (TOMs)?

Mae'r TOMs ar gyfer gwerth cymdeithasol yn fframwaith mesur sy'n galluogi datgloi gwerth cymdeithasol drwy ei integreiddio mewn caffael a rheoli prosiectau. Mae'r fethodoleg wedi'i datblygu ar y cyd â'r Gweithlu Gwerth Cymdeithasol Cenedlaethol (gan gynnwys y Porth Gwerth Cymdeithasol), sef sefydliad traws-sector sy'n cyfuno sefydliadau'r sector cyhoeddus a phreifat. Roedd fframwaith TOMs yn ganlyniad ymgynghori helaeth ar draws awdurdodau lleol a sefydliadau'r sector cyhoeddus, gan gynnwys y Gymdeithas Llywodraeth Leol, y Swyddfa ar gyfer Cymdeithas Sifil a Gwasanaethau Masnachol y Goron. Mae'r fframwaith TOMs wedi'i gynllunio ar sail 5 prif fater, 20 Canlyniad Craidd a 48 Mesur Craidd.

- Themâu – Y themâu strategol cyffredinol y mae sefydliad yn bwriadu mynd ar eu trywydd;
- Canlyniadau – Yr amcanion neu'r nodau y mae sefydliad yn gobeithio eu cyflawni a fydd yn cyfrannu at y Thema;
- Mesurau - Y mesurau y gellir eu defnyddio i asesu p'un a yw'r Canlyniadau hyn wedi'u cyflawni. Ar gyfer y Fframwaith TOMs, mae'r rhain yn seiliedig ar gamau gweithredu ac yn cynrychioli gweithgareddau y gallai cyflenwr, darparwr gwasanaethau a chontractwr eu cwblhau i gefnogi canlyniad dymunol penodol.

Ym mis Tachwedd 2020, lansiwyd Fframwaith TOMs Cenedlaethol Cymru ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, gyda chefnogaeth Tasglu Gwerth Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru (NSVT Cymru). Mae NSVT Cymru yn fforwm rhanddeiliaid sy'n cynnwys cyrff ac endidau'r sector cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru (Tîm Buddion Cymunedol), Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Trafnidiaeth Cymru, yn ogystal â nifer o Gynghorau a Chymdeithasau Tai.


Mae Fframwaith TOMs Cenedlaethol Cymru wedi'i addasu, ac fel fframwaith pwrpasol i'r Cyngor bydd yn cynnig ffordd o fesur ac adrodd ar werth cymdeithasol a buddion cymunedol yn gyson â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan alluogi'r Cyngor felly i adrodd yn benodol yn erbyn amcanion y Ddeddf.

Prif fuddion safon adrodd sylfaenol a chyson ar gyfer gwerth cymdeithasol yw ei bod:

- Yn darparu dull cyson o fesur ac adrodd ar werth cymdeithasol;
- Yn hyblyg, addasadwy a phwrpasol sy'n hanfodol i ddangos y gall y fethodoleg lwyddo;
- Yn caniatáu ar gyfer gwelliant parhaus;
- Y darparu ateb cadarn, tryloyw ac amddiffynadwy ar gyfer asesu a dyfarnu tendrau;
- Yn galluogi sefydliadau i gymharu eu perfformiad eu hunain yn ôl meincnodau sector a diwydiant a deall sut beth yw perfformiad da;
- Yn seiliedig ar berfformiad anariannol, ond yn galluogi adrodd ar werth y £;
- Yn lleihau ansicrwydd ynghylch mesur gwerth cymdeithasol ar gyfer busnesau, gan eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus ar sail asesiadau meintiol cadarn, ac felly ymgorffori gwerth cymdeithasol yn eu strategaethau corfforaethol.

# 6 BETH YW CYFLOGAETH FOESEGOL?

ansiwyd Y Cod Ymarfer ar 'Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi' (y Cod) yn 2017 gan Lywodraeth Cymru, a'i nod yw cefnogi datblygu mwy o gadwyni cyflenwi moesegol i gyflawni contractau i'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Anogir pob sefydliad i ymrwymo i'r Cod, a disgwylir i fusnesau yng nghadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus ei fabwysiadu. Sefydlwyd y Cod i sicrhau bod gweithwyr mewn cadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus yn cael eu cyflogi mewn ffordd foesegol a chan gydymffurfio â llythyren ac ysbryd cyfreithiau'r DU, yr UE a chyfreithiau rhyngwladol. Mae'r Cod yn cynnwys deuddeg ymrwymiad sy'n cwmpasu materion fel y rheiny a restrir yn y diagram.




Ymrwymodd y Cyngor i'r Cod ym mis Tachwedd 2017 ac mae wrthi'n gweithio tuag at weithredu polisïau a phrosesau i fodloni ymrwymiadau'r Cod.

# 7 BETH YW ECONOMI GYLCHOL?

Ymagwedd systemig tuag at ddatblygu economaidd gyda'r bwriad o sicrhau budd i fusnesau, cymdeithas a'r amgylchedd yw economi gylchol. Dywed Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) "mae economi gylchol yn economi amgen i economi linol draddodiadol (gwneud, defnyddio, gwaredu) lle byddwn yn cadw defnyddio adnoddau cyn hired â phosibl, gan dynnu'r gwerth mwyaf ohonynt wrth eu defnyddio, yna adfer ac atgynhyrchu cynhyrchion a deunyddiau ar ddiwedd pob bywyd gwasanaeth.




**Pam mae economi gylchol yn bwysig?**

Yn ogystal â chreu cyfleoedd newydd ar gyfer twf, bydd economi fwy cylchol:

- yn lleihau gwastraff,
- yn ysgogi mwy o gynhyrchiant o ran adnoddau,
- yn cyflawni economi fwy cystadleuol,
- yn mynd i'r afael yn well â materion yn ymwneud â sicrwydd/prinder adnoddau yn y dyfodol, ac
- yn helpu lleihau effeithiau amgylcheddol ein cynhyrchiant a'n defnydd."

# 8 BETH YW ADEILADU CYFOETH CYMUNEDOL?

Gwelir adeiladu cyfoeth cymunedol fel ysgogwr pwysig ar gyfer gwerth cymdeithasol. Ei nod a'i amcan yw ad-drefnu a rheoli'r economi leol fel nad yw cyfoeth yn cael ei dynnu'n awtomatig ond yn hytrach yn cael ei gadw'n eang ac yn gynhyrchiol, gyda gwreiddiau lleol, fel bod incwm yn cael ei ailgylchredeg gymaint ag y bo modd, cymunedau yn cael eu rhoi yn gyntaf ac y darperir cyfle cyfartal, urddas a lles i bobl.

Wrth galon yr ymagwedd adeiladu Cyfoeth Cymunedol ceir pump o strategaethau ar gyfer harneisio adnoddau presennol, ac un ohonynt yw caffael blaengar, i alluogi economïau lleol i dyfu a datblygu o fewn y dulliau caffael nwyddau a gwasanaethau blaengar. Gall caffael blaengar ddatblygu cadwyn gyflenwi leol ddwys o fentrau lleol, busnesau bach a chanolig, busnesau dan berchnogaeth gweithwyr, mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol a mathau eraill o berchnogaeth leol.

Mae'r math hwn o gaffael yn cyfoethogi'n lleol gan fod y mathau hyn o fusnesau'n fwy tebygol o gefnogi cyflogaeth leol, ac yn fwy tueddol o gadw cyfoeth a gwarged yn lleol.

# 9 BETH YW ECONOMI SYLFAENOL?

Adeiledir Economi Sylfaenol o'r gweithgareddau sy'n darparu'r nwyddau a'r gwasanaethau hanfodol ar gyfer bywyd bob dydd, ni waeth beth fo statws cymdeithasol defnyddwyr. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, gwasanaethau iechyd, addysg a lles; seilwaith; cyfleustodau; prosesu bwyd; a manwerthu a dosbarthu.

Mae'r gwaith a wneir gan Lywodraeth Cymru ar yr economi sylfaenol yn rhoi ffocws cenedlaethol penodol ar wyth 'sector' craidd yr economi gylchol, sef gofal; bwyd; manwerthu; twristiaeth; adeiladu; ynni; gofal plant; ac iechyd. Yn ogystal, mae ymagwedd ddatblygol yr economi sylfaenol yn cynnwys pwyslais ar dyfu'r 'canol coll' er mwyn cynyddu nifer y cwmnïau sefydledig a chydgysylltu gwerth caffael er mwyn hyrwyddo llesiant y gwariant hwn i'r eithaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi creu Rhwydwaith Economi Sylfaenol hefyd i hybu'r gwaith hwn.

# 10 CEFNOGI BUSNESAU LLEOL A BUSNESAU BACH A CHANOLIG

Ers nifer o flynyddoedd, mae'r Cyngor wedi arwain y ffordd o ran nifer o gamau arloesol a chynhyrchiol i ddatblygu mecanweithiau cymorth ar gyfer busnesau lleol a busnesau bach a chanolig i gyflenwi nwyddau, gwasanaethau a gwaith i'r Cyngor. Mae'r mentrau'n cynnwys:


- Clinigau caffael un i un lle gall ein cyflenwyr lleol fynychu a chael cyngor ac arweiniad ar agweddau ar gaffael; mae hyn hefyd yn cynnwys cymorth i gynnig am gyfleoedd tendr;
- Cyhoeddi'r canllaw 'Gwerthu i'r Cyngor';
- Cyhoeddi cyfleoedd contract y Cyngor (blaenraglen waith);
- Datblygu nifer o gytundebau 'Prynu Deinamig' i alluogi cyflenwyr i ymuno unrhyw bryd, gan annog cyflenwyr, darparwyr gwasanaethau a chontractwyr i gyflwyno cynigion consortia neu gynigion ar y cyd am waith y Cyngor;
- Arwain a chyfranogi mewn digwyddiadau rheolaidd 'Cwrdd â'r Prynwr' a 'Chwrdd â'r Cyflenwr;
- Cymhwyso'r ymagwedd Squid at dendrau a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae Swyddogion Perthynas Cyflenwyr pwrpasol gan y Cyngor, sy'n gweithio'n barhaus gyda busnesau lleol (gan gynnwys sefydliadau'r Sector Gwirfoddol, Cwmnïau Cymdeithasol a Ffatrïoedd a Gynorthwyir) drwy eu hannog i dendro am gontractau'r Cyngor.

# 11 AMCANION A CHYFLAWNI

Nod y polisi hwn yw darparu fframwaith cyffredinol ar gyfer sicrhau ymagwedd gyson a chydgysylltiedig at gyflawni gwerth cymdeithasol sy'n crisialu ysgogwyr polisi cenedlaethol a lleol. Mae'r polisi hwn yn amlinellu uchelgais ac ymrwymiad y Cyngor mewn perthynas â'r blaenoriaethau allweddol hyn, ac i gefnogi eu cyflawni bydd y Cyngor:

- Yn rhoi cyhoeddusrwydd ac yn cynyddu ymwybyddiaeth o'n 'Polisi Gwerth Cymdeithasol ac Amcanion cysylltiedig' er mwyn sicrhau bod ein cyflogeion, cyflenwyr, darparwyr gwasanaethau a chontractwyr yn glir ynghylch beth rydym eisiau iddynt ei gyflawni.
- Ymgorffori'r fframwaith TOMs mewn contractau i sicrhau bod ein
- cyflogeion, cyflenwyr, darparwyr gwasanaethau a chontractwyr yn glir ynghylch sut fyddan nhw'n cefnogi gweithredu'r polisi hwn a chyflawni'r amcanion
- Yn rheoli cyflawni gwerth cymdeithasol trwy drefniadau effeithiol ar gyfer rheoli contractau, a sicrhau bod cyflenwyr, darparwyr gwasanaethau a chontractwyr yn defnyddio'r porth gwerth cymdeithasol i fesur cyflawni ar gyfleoedd contract priodol sy'n werth dros £75,000.




# 12 CYFLAWNI GWERTH CYMDEITHASOL drwy THEMÂU, CANLYNIADAU A MESURAU (TOMs)

Yn atodedig, ceir y fersiwn gyfredol o fframwaith TOMs penodol y Cyngor sydd wedi'i gysoni â'r pum amcan allweddol, gyda 'Gofalu am Gaerffili' yn ganolog. Mae'n bwysig nodi bod y fframwaith TOMs yn hyblyg ac yn addasadwy, gan alluogi ystyried themâu, canlyniadau a mesurau newydd ac, os ystyrir eu bod yn dderbyniol, eu cynnwys o fewn y fframwaith.

App_1_Caerphilly_TOMs_Final V1.0.xlsx

# 13 Adrodd, Monitro a Rheoli Contractau

Bydd yn ofynnol i gyflenwyr, darparwyr gwasanaethau a chontractwyr llwyddiannus ddarparu gwybodaeth fonitro reolaidd yn amlinellu cynnydd o ran cyflawni gwerth cymdeithasol. Bydd Rheolwyr Contractau'r Cyngor yn:



- Sicrhau bod y cyflenwr, darparwr gwasanaethau a chontractwr yn gwybod am y gofynion gwerth cymdeithasol, yn unol â methodoleg TOMs, unrhyw ddangosyddion perfformiad allweddol (DPA) cysylltiedig, a mecanweithiau adrodd dewisedig
- Gwneud olrhain y cyflawni yn erbyn y gofynion gwerth cymdeithasol, mor bell i lawr cadwyni cyflenwi ag sy'n rhesymol ymarferol, yn nodwedd o gyfarfodydd rheolwyr contractau rheolaidd, ac olrhain cyflawni trwy DPAau a thrwy gyfeirio at eich mecanwaith adrodd dewisedig, a
- Bwydo unrhyw wersi a ddysgwyd yn y paratoadau ar gyfer cyfleoedd contract dilynol ar draws y Cyngor fel bod rhai eraill yn dysgu o'u profiad.

Cyfeiriwch at God Ymarfer Caffael y Cyngor i gael gwybodaeth fwy penodol mewn perthynas â Rheoli Contractau.

# 14 Llywodraethu a Rheolaeth

Bydd Tîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor yn goruchwylio cyflawni'r polisi hwn. Mae'r Tîm yn cynnwys y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Corfforaethol, a gellir gwahodd rhanddeiliaid allweddol eraill i fynychu cyfarfodydd y Tîm fel bo'r gofyn. Bydd diweddariadau yn cael eu darparu bob chwarter i'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn nodi manylion y canlyniadau a'r mesurau sy'n cael eu cofnodi drwy'r fethodoleg TOMs. ***Gellir gofyn am help a chymorth gyda gweithredu'r polisi hwn gan y Gwasanaethau Caffael a Gwybodaeth.***

# 15 CYSYLLTWCH Â NI

**E-bost:** caffael@caerffili.gov.uk

**Ffôn:** 01443 863161

**Cyfeiriad Post:** Gwasanaethau Caffael, Tŷ Penallta, Tredomen Park/Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7PG

**Gwefan:** Busnes/Tendrau a Chaffael